# GWYLLTIO: Y FFORDD GYMREIG

Cynghrair Ailwyllltio Cymru
Welsh Rewilding Alliance

Cynghrair Ailwyllltio Cymru
**Adroddiad 2026**



## Jon Moses

Cynghrair Ailwylltio Cymru

**Mae Jon Moses yn un o aelodau craidd Cynghrair Ailwylltio Cymru, yn cynrychioli ymgyrch Right to Roam.**

Mae Jon yn awdur ac ymgyrchydd. Mae wedi cyhoeddi erthyglau nodwedd, ysgrifau a phroffiliau ar faterion amgylcheddol ac ehangach, yn cynnwys i'r Guardian, Bloomberg Businessweek, The Lead a The Great Outdoors, ac yn 2024 fe fu'n olygydd ar y cyd ar lyfr ymgyrch Right to Roam, Wild Service: Why Nature Needs You. Fe'i comisiynwyd i ysgrifennu'r adroddiad hwn ar ran y grŵp. Fel y llais y tu ôl i rai o'r sgyrsiau mwyaf treiddgar am ein hawl i gysylltu â byd natur, mae Jon yn cydblethu hanes, gwleidyddiaeth a hanesion personol i herio sut rydym yn meddwl am y tirweddau o'n cwmpas.

# Crynodeb

## 01

Mae Cymru wedi profi colledion sylweddol a hirhoedlog i'w threftadaeth naturiol, **gyda thua 300 o rywogaethau wedi diflannu ers 1800 a gostyngiad o 20% o ran toreithrwydd cyffredinol rhywogaethau yn y tri deg mlynedd diwethaf.** Mae dwy ran o dair o'r tir a ddynodwyd ar gyfer gwarchod byd natur mewn cyflwr **'anffafriol', gyda 55% o ardaloedd morol gwarchodedig hefyd yn cael eu cyfri'n 'anffafriol'.** Ar hyn o bryd, mae gan Gymru sgôr **cyfanrwydd biolegol o 37%** ac felly mae hi'n un o'r gwledydd sydd wedi gweld y colledion mwyaf yn y byd o ran natur.

## 02

Mae'r gydberthynas rhwng pobl a byd natur yn rhan hanfodol o ddiwylliant Cymru, ond mae'r berthynas honno wedi'i herydu'n sylweddol dros y canrifoedd diwethaf o ganlyniad i echdynnu adnoddau, athroniaethau rheoli'r tir sy'n elyniaethus at fyd natur, a chymhellion polisi hanesyddol a anogai ddwysáu amaethyddol. Cychwynnwyd llawer o'r prosesau hyn o'r tu allan i Gymru. Mae cynlluniau ar gyfer taliadau amaethyddol yn dilyn Brexit (sy'n dwyn yr enw Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar hyn o bryd) yn gyfle i Gymru gymryd yr awenau a phennu llwybr newydd.



# 03

Yng Nghymru mae cefnogaeth ddigamsyniol i fesurau a fydd yn gwrthdroi'r duedd at ddifa ecosystemau: gwneud cyllid cyhoeddus ar gyfer amaethyddiaeth yn amodol ar ddulliau rheoli tir beiddgar sy'n natur-gyfeillgar ac yn dda i'r hinsawdd; ailwylltio; ac ailgyflwyno rhywogaethau brodorol allweddol fel yr afanc.

Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd hyd yma ac mae'r cynlluniau sydd wedi'u llunio i gyflawni'r nodau hyn wedi'u gwanhau. Ar hyn o bryd, prin yw'r gydnabyddiaeth i weithgareddau sy'n ceisio adfer byd natur ar raddfa fawr drwy brosesau naturiol, er eu bod wedi dangos canlyniadau clir a chost-effeithiol. Mae hyn yn adlewyrchu diffyg democrataidd yn y drafodaeth am reoli tir a chefnogaeth gyhoeddus i'r amgylchedd.

# 04

Am fod daliadau tir ar y cyfan yn llai yng Nghymru, mae'n bosib y bydd angen cysylltu rhwydweithiau o safleoedd bach neu ganolig drwy goridorau natur (e.e. gyda chefnogaeth haen gydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) gan hefyd geisio cyfleoedd i gyfuno safleoedd ble bo hynny'n bosib ac yn briodol er mwyn sicrhau'r manteision a geir o adfer ar raddfa'r dirwedd.

Er mwyn cyflawni ymrwymiadau 30x30 y Llywodraeth, **rydym yn cynnig y dylid anelu at ymrwymo 5% o'r tir ar gyfer gwaith ailwylltio craidd, a 25% ar sbectrwm o ardaloedd** lled-wyllt sy'n cyfuno prosesau naturiol â mentrau seiliedig ar natur a chynhyrchion amaethyddol premiwm. Gellir cyflawni'r nodau hyn heb unrhyw effaith arwyddocaol ar sicrwydd bwyd Cymru a'u cefnogi drwy gyfrwng mesurau sy'n hwyluso gallu cymunedau i gaffael tir a'i stiwardio er lles byd natur a buddion cymdeithasol eraill.

# 05

Mae cefn gwlad Cymru yn diboblogi'n sylweddol a'r ddemograffeg yn heneiddio, wrth i bobl ifanc ffoi rhag prinder cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd.

Er gwaethaf hyn, mae tystiolaeth i awgrymu bod pobl ifanc yn rhoi gwerth ar fyw yng nghefn gwlad ac y byddai llawer yn dychwelyd pe bai'r amgylchiadau'n newid. Gall ailwylltio fod yn rhan o strategaeth ehangach ar gyfer ailboblogi cefn gwlad a chynyddu'r amrywiaeth o gyfleoedd economaidd, gan greu rolau sy'n cael eu coleddu ym maes cadwraeth, y diwydiannau creadigol, amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae astudiaethau achos yn dangos **cynnydd cyfartalog o 120% mewn cyfleoedd cyflogaeth yn dilyn ailwylltio.** Gellir atgyfnerthu'r rhain gyda strategaeth ieuenctid cefn gwlad sy'n mynd i'r afael â heriau fel diffyg tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig a phrinder sgiliau.

# 06

**Fel cam cyntaf,** mae Cynghrair Ailwylltio Cymru yn galw ar i'r Llywodraeth ymrwymo i'r canlynol: taliadau ar gyfer pori naturiol a gwaith adfer ecolegol ehangach; ailgyflwyno rhywogaethau 'allweddol' brodorol fel yr afanc a'r wystrysen; gweithredu pecyn diwygio tir i Gymru, gan gyflwyno mesurau fel Hawl y Gymuned i Brynu, hawliau mynediad statudol gwell, a Thrwydded Creu Natur; ac 'arafu'r llif' trwy greu cynllun gweithredu seiliedig ar natur ar gyfer pob dalgylch yng Nghymru sy'n cael ei effeithio gan lifogydd.



# Helo, ni yw Cynghrair Ailwyllltio Cymru.

**Mae Cynghrair Ailwylltio Cymru yn fudiad sy'n tyfu sy'n uno sefydliadau, tirfeddianwyr, cymunedau a phobl sy'n gwneud penderfyniadau i adfer ecosystemau sy'n ffynnu, rhoi hwb i fywoliaethau cefn gwlad a dathlu tirweddau Cymru a'n natur wyllt. Rydym yn adeiladu ar y pŵer a'r momentwm angenrheidiol i gyflawni ailwylltio yng Nghymru, gan Gymru, ar gyfer Cymru.**


| | |
|---|---|
| Colli Treftadaeth Naturiol Cymru | 08 |
| Beth mae Cymru ei Eisiau | 18 |
| Ailboblogi drwy Ailwylltio | 24 |
| Pa Ffordd i Gymru? | 34 |

# Colli Treftadaeth Naturiol Cymru

**Ddiwedd yr 16eg ganrif, tua phum can mlynedd yn ôl, cychwynnodd mintai o wiwerod coch ar orymdaith o Ruthun.**

Roedd eu coedwig, Coed Marchan, yn cael ei dinistrio. Ac felly fe aethant ar daith ddau gan milltir i Lundain i geisio cyfiawnder. Ar ôl cyrraedd y llys, cododd y pen-gwiwer i dyngu llw a rhoi'r cyfrif canlynol:




“Anrheithio holl goed
Rhuthyn a dwyn ei thŷ
a’i sgubor liw nos du,
a’i chnau a’i stôr.

mae’r gwiwerod yn
gweiddi am y coed...
Nod oes gepyll heb ei gipio,
na nyth brân byth i’n bro.

Mae’r tylluanod
yn udo am y coed,
yn gyrru plant o’u co’.”





Mae'n bosib mai hanes y gwiwerod hyn gan y clerwr o Sir Ddinbych, Robin Clidro, ydy'r enghraifft gyntaf ar gof a chadw ym Mhrydain o drafodaeth o Hawliau Natur. [1]

Mewn llinell ar ôl llinell, mae'n manylu ar effeithiau dinistriol datgoedwigo ar yr holl greaduriaid sy'n dibynnu ar y goedwig: y cathod gwyllt a'r tylluanod ("oer ei lle am geubren llwyd"), y draenogod a'r brain. Ac eto, nid ar ran ei chyd-greaduriaid gwyllt yn unig y plediai gwiwer Clidro. Roedd yn siarad ar ran pobl hefyd. Gyda'r coed wedi mynd, rhybuddiodd y wiwer:

[1] *Robin Clidro, 'Marchan Wood', tr. Gwyn Williams in Welsh Poems: Sixth Century to 1600 (Berkeley: University of California Press, 1974)*

“Crychias ni feirw crochan,
na breci mwy heb bricie mân.
O daw mawnen o’r mynydd
a y glaw, oer a drud fydd.
Annwyd fydd yn
lladd y forwyn,
oer ei thraed a
defni o’i thrwyn.”



**"Mae'r canrifoedd ers ysgrifennu Coed Marchan wedi gweld y berthynas sylfaenol hon yn dadfeilio."**

Hawl casglu cynnud i gael coed tân, hawl torri mawn ar gyfer yr aelwyd. Roedd hawliau cyffredin o'r fath yn gwbl greiddiol i Gymru wledig ar un adeg. Golygai colli'r goedwig golli'r rhain hefyd: dwyn y mes oddi ar "hwch folgoch hen" y gwerinwr; gwarafun i'r geifr gael cnoi'r cyll. Mae neges y wiwer yn glir. Pobl. Natur. Yr un yw eu tynged. Pan feddyliwn beth yw ystyr Cymru wylltach, dyma'r Gymru a olygwn.

Ac eto mae'r canrifoedd ers cyfansoddi Coed Marchan wedi gweld y berthynas sylfaenol hon yn datgymalu. Gyda dyfodiad y chwyldro diwydiannol, daeth llawer mwy na choed Rhuthun dan y fwyell, tra bod amgáu'r tir a gwelliannau amaethyddol wedi effeithio ar rannau helaeth o Gymru. Drwy gydol y 18fed a'r 19eg ganrif, cafodd yr ucheldiroedd eu calchu a'u draenio, cafodd y caeau eu ffrwythloni a'u symleiddio. Codwyd ffensys, dilëwyd hawliau comin; dechreuwyd cyfeirio at blanhigion ac anifeiliaid brodorol fel 'chwyn' a 'phlâu'. Bu syrfewyr amaethyddol, gan fewnforio syniadau ffasiynol o'r Alban a Lloegr, yn pledio'r achos dros ddatgymalu cynefinoedd hynafol Cymru (rhosydd, cloddiau) bob yn dipyn rhag i'r "drygioni a achosir gan adar a phryfed" gael cydio yno.[2] Digon tebyg oedd eu hagweddau at y rhai a ddibynnai ar y tir am eu bywoliaeth.

Roedd gwaith yr ideolegwyr hyn wedi braenaru'r tir. Yn yr 20fed ganrif, daeth llu o bolisïau amaethyddol eraill, a ddatblygwyd (unwaith yn rhagor) y tu allan i Gymru, i bennu'r arferion a ddilynai'r wlad. Daeth colledion dirifedi i'w canlyn. Codwyd planhigfeydd conwydd ar y bryniau, gan asideiddio'r pridd a difrodi'r mawnogydd, gyda 90% o'r rhain bellach wedi dirywio.[4] Cwympwyd un rhan o dair o'r coedwigoedd hynafol a oedd yn weddill.[5] Heddiw dim ond 15% o Gymru sydd dan orchudd coed – mwy nag yn y gorffennol diweddar, ond mae'n dal i'n gadael yn un o'r gwledydd â'r lefel isaf o orchudd coed yn Ewrop (ac mae dwy ran o dair o hynny dan blanhigfeydd conwydd, sy'n gynefin ecolegol wael). Ar lawr gwlad, mae gofynion dulliau dwys o gynhyrchu da byw yn golygu bod y clytwaith o gaeau gwyrdd gloyw yn gyforiog o faethynnau artiffisial ac yn brin o amrywiaeth fiolegol. Yn yr ucheldiroedd, mae gorbori yn hanesyddol wedi achosi i ardaloedd helaeth droi'n undonedd o laswellt y gweunydd, sy'n ymledu am filltiroedd dirifedi.[6] Yn y cymoedd, rhai'r de a'r gogledd, gwelwn y creithiau yn sgil echdynnu adnoddau, y tomenni enfawr o sborion yn frith dros y dirwedd o hyd. Mae unrhyw elw a wnaed wedi diflannu ers talwm. Caiff eu gwir gost ei gyfrif bob dydd.





[2] *Ni ddaw'r un grochan i'r berw heb frigau mân i'w llosgi, ac ni fydd bragu chwaith. Os caiff mawn ei gasglu (i'w losgi) o'r mynydd yn y glaw, mae'n oer a chostus. Bydd anwydydd yn llethu'r forwyn, â'i thraed yn oer a'i thrwyn yn diferu.*

[3] *Charles Hassall, 'A General View of the Agriculture of the County of Monmouthshire' (1815)*

[4] *Cyfoeth Naturiol Cymru, 'Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd: Adroddiad Blwyddyn 5' (2025) – bu cryn wrthwynebiad a drwgdeimlad yng Nghymru tuag at y cynlluniau coedwigo hyn ganol y ganrif, a'u canlyniad fu drwgdybiaeth o brosiectau plannu coed ar raddfa fawr.*

[5] *AIDAC, 'Gwarchod Coed a Choetiroedd yng Nghymru' (2025)*

[6] *Senedd Research, 'National Forest: the challenge of woodland creation in Wales' (2021)*

**"Codwyd planhigfeydd conwydd ar y bryniau, gan asideiddio'r pridd a difrodi'r mawnogydd, gyda 90% o'r rhain bellach wedi dirywio."**



Mae'r canlyniadau ond yn rhy gyfarwydd. Yng Nghymru, mae dirywiad enbyd wedi hen gydio: 300 o rywogaethau wedi diflannu ers y 1800au, gostyngiad o 20% o ran toreithrwydd cyffredinol rhywogaethau yn y tri deg mlynedd diwethaf, 18% o'r rhywogaethau sy'n weddill ar y rhestr goch, dwy ran o dair o ardaloedd sydd wedi'u gwarchod mewn theori ar gyfer byd natur mewn cyflwr 'anffafriol' mewn gwirionedd.[7]

Mae creaduriaid fel y gath wyllt frodorol, y sonia cerdd Clidro amdani, wedi ymuno â'r lyncs, y blaidd, yr eryr môr, y cigydd cefngoch, rhegen yr ŷd a'r eos ar y gofrestr o rywogaethau wedi diflannu o'r wlad. Mae'r wiwer goch yn dal ei gafael o drwch blewyn. Gallai planhigion unigryw, fel Lili'r Wyddfa a'r Afal-fwsogl Unionsyth gyda'r gleiniau gloyw, ddiflannu cyn bo hir.

[7] *IEPAC, Protection of Trees (2025)*

# Heddiw dim ond 15% sydd dan orchudd coed

## “Yn yr amgylchedd morol, mae bron i hanner dyfroedd ‘gwarchodedig’ Cymru yn cael eu cyfrif yn ‘anffafriol’ eu cyflwr ar hyn o bryd.”

Yn yr amgylchedd morol, mae bron i hanner dyfroedd ‘gwarchodedig’ Cymru yn cael eu cyfrif yn ‘anffafriol’ eu cyflwr ar hyn o bryd. Mae mwyafrif ein hafonydd mewn cyflwr ecolegol wael, gyda rhywogaethau nodweddiadol fel yr eog wedi gweld cwymp syfrdanol o 70% yn y degawd diwethaf.[8]

Mae golygfeydd a fu gynt yn gyfarwydd ar ein glannau bellach ond i’w profi, os o gwbl, drwy raglenni dogfen David Attenborough – rhyfeddodau sy’n perthyn i lefydd pellennig, nid i’n milltir sgwâr. Porwch drwy unrhyw lyfr hynafol am hanes natur yn y Llyfrgell Genedlaethol: buan y gwelwch enghreifftiau o fywyd beunyddiol rhyfeddol o oes arall sydd bellach y tu hwnt i’n gafael.

Miliwn o benwaig wedi’u dal mewn un noson ger Aberystwyth yng nghanol y 18fed ganrif. Mae’r maelgi heddiw, er yn “doreithiog” ym Mae Ceredigion ar un adeg, yn ysbrydoli adroddiadau gorfoleddus gan y BBC pan gaiff ond un o’r rhywogaeth ei gweld.[9] Ystyriwch un adroddiad o 1919, ond ganrif yn ôl, a oedd yn taeru bod y mecryll mor niferus islaw penrhyn Trwyn y Fuwch yn Llandudno fel y gallai’r chwarelwyr “ddal cannoedd ohonynt ond drwy gerdded i’r dŵr am ychydig lathenni a’u taflu i’r lan â’u dwylo.”[10] Mae cyfoeth o’r fath yn anhygoel i ni heddiw, y tu hwnt i’n hamgyffred hyd yn oed. Mae llymder ein gorwelion wedi pylu ein gallu i deimlo, wedi ein dallu i’r posibilrwydd y gallai pethau fod yn wahanol.



[8] *Kevin Roberts, ‘Adolygiad o Gadernid Ffermio yng Nghymru’ (2014) – ers hynny mae niferoedd stocio wedi gostwng yn sylweddol, gan gyfrannu – yn baradocsaidd – at broblem o ddiffyg pori wedi’i dargedu, yn enwedig gan wartheg, i gadw glaswellt y gweunydd, sydd bellach yn helaeth, dan reolaeth.*

[9] *Sefyllfa Natur: Cymru (2023)*

[10] *Stuart Rees, ‘Un rhwystr ar y tro i Eogiaid yr Iwerydd’ Cyfoeth Naturiol Cymru (2024)*

# “Mae’r eog wedi gweld cwymp syfrdanol o 70% yn y degawd diwethaf.”



# Beth mae Cymru ei Eisiau

**Gyda sgôr o 37% ar y Mynegai o Gyfanrwydd Biolegol, mae gan Gymru, fel gweddill y Deyrnas Unedig, yr anrhydedd amheus o fod yn un o'r gwledydd sydd wedi gweld y colledion mwyaf yn y byd o ran natur.** [11]

Mae'r hanesion y tu ôl i ffigurau o'r fath yn gymhleth ac nid ydynt yn unigryw i Gymru. Nid ar sail awydd i bwyntio bys nac i ddigalonni y cânt eu hamlygu. Serch hynny, maent yn tanlinellu ffaith syml: mae'r berthynas rhyngom ni a byd natur wedi'i herydu'n ddifrifol. Mae angen i rywbeth newid.

Am lawer o'u hanes ni fu gan bobl Cymru lawer o reolaeth dros natur y newid hwnnw (wedi'r cyfan, bu'n rhaid i wiwerod Clidro orymdeithio i Lundain i gael pledio eu hachos). Ni chafodd polisi amaethyddol, un o'r prif fecanweithiau sy'n pennu ein tynged ecolegol, ei ddatganoli tan ddiwedd y 1990au, a rôl eilaidd oedd gan reolaeth leol i'w chwarae tra bod adnoddau'n cael eu cyfeirio gan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd. Dim mwyach.

Yn 2026 bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi ar waith ei chynllun amaethyddol gwirioneddol ddomestig cyntaf o fewn cof, gan ddiffinio beth fydd yn digwydd dros gyfran helaeth o'r dirwedd – 2026% ohoni mewn defnydd amaethyddol ar hyn o bryd.

Dylai fod yn foment gyffrous, yn achos dathlu. Troi dalen newydd. Cyfle i fod yn feiddgar ac i dorri ein cwys unigryw ein hunain. Yn hytrach, buan y trowyd y ddadl gyhoeddus ar ei phen a'i disodli gan drafodaeth ddi-fudd – ac adroddiadau camarweiniol yn ddigon aml – ynghylch cynnig am i'r rhai a fydd yn cael cyllid gadw 10% o'u tir dan orchudd coed.

[11] *Alec Moore, 'We gathered centuries-old written records to show the seas around Wales once teemed with life' The Conversation (2024) | 'Rare angelshark filmed in Welsh waters 'for first time', BBC Cymru (2021)*

# 37%

# Cyfanrwydd Biologol

Bygythiodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru foicot. Defnyddiodd y BBC y label camarweiniol 'cynllun plannu coed'. [12] Honnodd dylanwadwyr o fyd ffermio, heb ddim tystiolaeth na rhesymeg, y byddai'n "difetha" y wlad. Unwaith eto, cafodd sgwrs genedlaethol am wariant cenedlaethol i gyflawni amcanion cenedlaethol sylweddol ei throi yn ddadl danbaid rhwng dwy garfan am un mater emosiynol. Ar yr un pryd, cafodd y rhan fwyaf o'r wlad, a'r ffermwyr hynny â chyfraniadau mwy cytbwys, eu gwthio i'r ymylon.[13] O ganlyniad, cafodd ymyriadau a allai fod wedi bod yn sail i dirwedd gyfoethocach a mwy amrywiol eu gollwng neu eu gwanhau cyn gallu cychwyn. Un lifer arall ar gyfer adferiad sylweddol i fyd natur yng Nghymru: wedi mynd.

O ganlyniad i gulhau'r sgwrs hon, mae ymdrechion i ailddychmygu'r status quo wedi'u llesteirio o hyd. Nid yw'r llywodraeth yn agos at gyflawni ei hymrwymiad i warchod ac adfer byd natur ar draws 30% o Gymru erbyn 2030, cytundeb rhyngwladol y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo.[14] Tra bo prosiectau y tu allan i'r Llywodraeth sydd â'r nod o adfer prosesau naturiol wedi bod yn destun ymosodiadau.[15]

Wrth wraidd yr anghydfod hwn y mae'r gair wrth wraidd y Gynghrair hon: ailwylltio.

Nod y dull hwn yw adfer byd natur ar raddfa fawr, tan y gall, i raddau helaeth, ofalu amdano'i hun (ac o ganlyniad – amdanom ni) unwaith eto. Yn hytrach na cheisio amddiffyn un rhywogaeth sydd mewn perygl, neu gynnal ynysoedd o gynefinoedd dilychwin, digyswllt, nod ailwylltio yw adfer y prosesau naturiol a deinamig sy'n sail i we bywyd: er enghraifft, drwy ailgyflwyno rhywogaethau 'allweddol' coll y mae eu gweithgareddau'n braenaru'r tir i rywogaethau eraill allu ffynnu.[16]

Ystyriwch rôl ond un rhywogaeth allweddol frodorol gynt, yr afanc. Mae ei harfer o drawsnewid nentydd di-nod yn wlyptiroedd cymhleth heb ei ail. Mae'r rhai sydd wedi croesawu'r creadur hwn yn ôl i'w tir yn gweld canlyniadau rhyfeddol ei lafur â'u llygaid eu hunain. Mae argaeau afancod yn creu brithwaith o byllau, eu dyfnder a chyflymder eu llif yn amrywio, a phob un yn gilfach o gynefin i rywogaethau.

[12] *Stefan Messenger, 'Climate: NFU Cymru leaders boycott tree plH. E Forest, A handbook to the vertebrate fauna of North Wales, Witherby and Co. (1919)*

[13] *Sefyllfa Natur: Cymru (2023)*

[14] *Stefan Messenger, 'Climate: NFU Cymru leaders boycott tree planting scheme', BBC Cymru (Gorffennaf 23, 2023)*

[15] *Gweler er enghraifft, gyfraniadau Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar Cymru at y drafodaeth ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Chwiliwch am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn nffn.org.uk.*

[16] *Llywodraeth Cymru, 'COP15: Gweinidogion yn galw am gytundeb 'chwyldroadol' ar fioamrywiaeth ym Montreal', datganiad i'r wasg (Rhagfyr 11, 2022)*

## O fewn y pyllau hyn ac o'u plith mae gloÿnnod byw, gweision y neidr a phryfed eraill y dŵr yn ffynnu, gyda'r dyfroedd yn cynnig nythod delfrydol i'r larfâu.



**"Mae'r poblogaethau o frogaod, llyffantod a madfallod yn ffrwydro. Yn y pyllau dyfnaf, mae brithyllod, eogiaid a llysywod yn ffynnu."**



**“Mynegodd 75% o’r rhai a holwyd yng Nghymru eu bod yn cefnogi ailwylltio.”**

Mae’r poblogaethau o frogaod, llyffantod a madfallod yn ffrwydro. Yn y pyllau dyfnaf, mae brithyllod, eogiaid a llysywod yn ffynnu. Mae’r toreithrwydd hwn yn cynnig gwledd naturiol i lu o ymlusgiaid ac adar, sy’n clwydo ac yn nythu yn y goedwig newydd o goed sy’n pydru, yn adfywio, yn boddi. Mae’r cynefin hwn yn cefnogi nifer fawr o anghenion pobl hefyd: hidlo dŵr ffo, rheoleiddio cyfaint y dŵr, ac arafu’r llif cyfartalog gymaint â 60% (ac o ganlyniad ceir llawer llai o lifogydd).[17]

Os yw hyn oll yn arbennig o gost-effeithiol o safbwynt ecoleg, ansawdd dŵr, a rheoli dŵr, mae hefyd yn cywiro methiant hanesyddol: fe wnaethon ni yng Nghymru, fel mewn llefydd eraill yn y Deyrnas Unedig, ddifa’r afanc brodorol am ei ffwr, ei gig a’r sylwedd castorewm o’i chwarennau sawr.

O un rhywogaeth i un arall: mea culpa. Mae’n bryd dod â’r afanc yn ôl adref. Mewn gwirionedd, mae pawb yng Nghymru bron yn cytuno. Mewn pôl piniwn diweddar gan YouGov, mynegodd 75% o’r rhai a holwyd yng Nghymru eu bod yn cefnogi ailwylltio, gydag 82% o blaid ailgyflwyno rhywogaethau brodorol, a 94% o’r rheiny’n croesawu ailgyflwyno afancod – y lefel uchaf o gefnogaeth yn y DU.[18]

[17] *‘Farmers’ Union of Wales wants rewilding project scrapped’, BBC Cymru (Gorffennaf 31, 2019)*

[18] *I weld diffiniad mwy llawn a chanllawiau ar ailwylltio, gweler: Locquet, A., Derham, T., Kun et al. ‘Guidelines for rewilding’, IUCN (2025)*

Er yn hwyr i'r parti – Cymru yw'r wlad olaf yn Ewrop i ailgyflwyno'r afanc – mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi mynegi cefnogaeth ofalus i'r syniad. Ond mae'r cynnydd gwirioneddol wedi bod yn boenus o araf, gyda dim ond pedwar clostir rheoledig a dim un afanc wedi'i ryddhau i'r gwyllt dan drwydded ar adeg ysgrifennu. Mae hyn, unwaith eto, yn rhannol yn sgil gwrthwynebiad gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, a gondemniodd ddeddfwriaeth ddiweddar i gydnabod a gwarchod y rhywogaeth fel un "hynod gynamserol" ac "anghyfrifol".[19]

Ar lawr gwlad, mae llawer o ffermwyr yn fwy pragmataidd, a byddant yn croesawu afancod os cânt eu cefnogi i reoli unrhyw broblemau, gan fanteisio hefyd ar y cyfleoedd i reoleiddio dŵr trwy'r gaeafau mwyfwy gwlyb a'r hafau mwyfwy sych. Mae newid hinsawdd, a chyda hynny'r cynnydd sylweddol mewn llifogydd difrifol ar hyd a lled Cymru, yn golygu bod newidiadau o'r fath yn mynd yn fwy o fater o 'raid' nag yn 'ddelfrydol o fewn rheswm'.[20]



[19] Puttock et al. *'Beaver dams attenuate flow: A multi-site study'*, *Hydrological Processes (2021)*

[20] *YouGov / Rewilding Britain (Mehefin 13, 2024) | YouGov (Mawrth 3, 2025)*

# Ailboblogi drwy Ailwylltio

## Mae a wnelo gwrthwynebiadau eraill i ailwylltio yn llai ag ystyriaethau pragmataidd o ran defnydd o'r tir ac yn fwy â phŵer a diwylliant.

**"Mae ailwylltio yn ei hanfod yn cwmpasu natur a phobl."**

Mae gwaddol 'gwelliannau' y 19eg ganrif a'r mentrau wedi'r rhyfel a orfododd gynlluniau coedwigo'r Llywodraeth ganolog (rhai a gafodd eu gweithredu'n wael yn aml) wedi gadael blas chwerw hirhoedlog yng nghefn gwlad Cymru. Ar adegau, mae canfyddiadau am ailwylltio wedi'u drysu ag ofnau mwy diweddar am rôl cwmnïau gwrthbwyso carbon yn prynu tir yng Nghymru. Mae'r rhain yn eu tro yn cael eu hystyried yn fygythiad i gymunedau gwledig a'r Gymraeg. Caiff y cysylltiad canfyddiadol hwn ei atgyfnerthu gan gred sy'n mudlosgi bod ailwylltio yn golygu ehangu coedwigoedd anfrodorol â chanopi caeedig (yn hytrach na brithwaith eang o gynefinoedd ochr yn ochr ag adfywio coetiroedd naturiol) ac yn dilyn model "cadwraeth cadarnle" ('fortress conservation') sydd â'r nod o feithrin tiroedd gwyllt dilychwin yn gwbl amddifad o bobl.

Nid dyma ein safbwynt, nac ein dull gweithredu. Ein cred ni, fel cred gwiwerod Clidro, yw bod ailwylltio yn ei hanfod yn cwmpasu natur a phobl.





**“Rydym yn rhannu ein cenedl â miloedd lawer o organebau byw.”**

Mae bodau dynol yn rhywogaeth allweddol yn ein rhinwedd ein hunain, a gallwn chwarae rôl rhywogaethau nad ydynt wedi cael, neu nad oes modd eto, eu cyflwyno. Rydym yn cefnogi modelau o adferiad ecolegol a fydd yn cryfhau cymunedau cefn gwlad, nid eu disodli, gan ennyn cyfleoedd, mynediad ac amrywiaeth.

Nid yw’r Gynghrair wedi ei chymell gan ystyriaethau ariannol nac ideolegol. Yn hytrach, mae un farn syml wedi ein dwyn ynghyd: ein bod yn rhannu ein cenedl â miloedd lawer o organebau byw, ac na ddylem – na allwn – ddilyn llwybr sy’n peri eu distryw digamsyniol, di-ben-draw.

Mae ailwyllltio ar ei orau pan gaiff ei wneud ar raddfa fawr, ac o’r herwydd mae wedi dod i gael ei weld fel rhywbeth sy’n cael ei wneud ar ddaliadau mawr o dir preifat, trydydd sector neu gymunedol yn Lloegr a’r Alban, neu ar ardaloedd eang o dir cyhoeddus yn Ewrop. Yng Nghymru, ble mae daliadau tir ar gyfartaledd tua hanner maint y rhai dros y ffin, a ble mae tir cyhoeddus yn cyfrif am lai na 10% o’r cyfanswm, gallai ailwyllltio fynd ar drywydd gwahanol: gweithio ar raddfa fwy yn yr amgylchedd morol ac ar dir ble mae hynny’n bosib, gyda brithwaith o safleoedd bach neu ganolig mewn mannau eraill.[21]

*[21] Datganiad Ysgrifenedig gan Huw Irranca-Davies, Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: ‘Llywodraeth Cymru yn cefnogi ailgyflwyno dan reolaeth yr afanc Ewropeaidd yng Nghymru’, Llywodraeth Cymru (Medi 26, 2024) gydag ymateb NFU Cymru: Joe Rees Jones, ‘News from the NFU’, Abergavenny Chronicle (1 Tachwedd, 2025) [Noder: camgymeriad yw’r cyfeiriad at foch daear yn yr is-bennawd.]*



Ymhen amser, gellid cysylltu'r rhain drwy goridorau natur, wedi'u hategu gan yr haen gydweithredol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, er mwyn sicrhau'r buddion ecolegol a gynigir gan gysylltedd ac ehangder. O fynd ati yn y ffordd hon, gellid sicrhau safleoedd ar gyfer ailwylltio 'craidd' heb unrhyw effaith arwyddocaol ar sicrwydd bwyd gan sefydlu safleoedd sylweddol ar gyfer adfer byd natur ym mhob rhanbarth.[22]

Mae mentrau llai hefyd yn golygu bod codi'r cyfalaf i gyllido pryniannau cymunedol yn dasg lai brawychus.[23] Ar hyn o bryd mae Cymru ymhell y tu ôl i'r Alban (a Lloegr bellach) o ran datblygu mecanweithiau i gefnogi cymunedau i ddod yn berchen ar dir, neu i gael mynediad rhwydd at gyllid sbardun i gyflawni hynny. Dyna pam y dylai diwygiadau tir fod yn rhan o'r darlun polisi yng Nghymru: caniatáu i bobl leol, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, gael mynediad at dir, prynu tir a phenderfynu sut caiff ei reoli. Fel yn achos gwaith yr afancod, rydym wedi gweld pa mor bwerus y gall hyn fod, gyda phrosiectau angori yn esgor ar grwpiau gwarchod lleol sy'n gwasanaethu'r tir.[24]

Efallai yn y dyfodol agos byddwn unwaith eto'n ymgynnull ar benwythnosau yn ein cymunedau; i ofalu am goed, i adfer corsydd, i gofnodi rhywogaethau, ac i rannu ein straeon, ein llawenydd, a'n galar.

*[22] Mae llifogydd eisoes yn effeithio ar tua 148,000 o bobl yng Nghymru yn rheolaidd, a rhagwelir y bydd hynny'n cynyddu i 200,000 erbyn 2050. Mae 245,000 o eiddo eisoes mewn perygl. Mae i ddigwyddiadau llifogydd difrifol, fel y rhai a welwyd yn Nhrefynwy yn 2025, effeithiau cymdeithasol ac economaidd aruthrol ac maent yn effeithio ar hyfywedd masnachol a phreswyl yn y tymor hir. Gweler mwy yn: Llywodraeth Cymru, 'Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru' (2020)*

*[23] Ymysg enghreifftiau o'r fath mae safle 80 erw un o bartneriaid y Gynghrair, y Grange yn Sir Fynwy; neu y tu allan i Gymru, mae prosiectau gwylltio cymunedol fel Moor Barton yn Dartmoor.*

*[24] Gweler y blwch ffeithiau ar 'Fwyd' yn yr adroddiad hwn.*

## “Mae rhagolygon y sector amaethyddol traddodiadol yn peri pryder. Collwyd 8,000 o swyddi amaethyddol rhwng 2010 a 2011.”





Dim ond tyfu yn ei arwyddocâd y mae rôl gymdeithasol adferiad byd natur – a rôl ailwylltio o fewn hynny. Y patrwm hirhoedlog yng nghefn gwlad Cymru yw diboblogi a ‘geronteiddio’ cynyddol. Hynny yw, mae mwyafrif y bobl ifanc wedi gadael neu’n bwriadu gadael, ac fe ddaw yn eu lle – os daw unrhyw un yn eu lle – y rhai sy’n heneiddio ac yn ymddeol. Mae dros 200 o wardiau gwledig ble mae’r boblogaeth wedi bod yn gostwng dros y degawd diwethaf – tuedd sydd, yn ôl y rhagolygon, i barhau – tra bod arolygon a gynhaliwyd yn 2021 yn awgrymu bod 40% o’r bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru yn rhagweld y byddant yn symud allan o Gymru dros y pum mlynedd canlynol.[25] Mae ‘allan o Gymru’ yn ddadlennol: oherwydd pan fo pobl ifanc yn gadael cefn gwlad, yn aml maen nhw’n gadael y wlad yn gyfan gwbl. Fel y dywedodd un dyn ifanc a holwyd yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin: “Mae pawb yn hen ac yn marw. Mae pob person ifanc sy’n gallu gadael, yn gadael, i fynd i’r brifysgol neu i weithio. Yr unig bobl ifanc sydd ar ôl, maen nhw yma am fod gyda nhw ddim o’r gallu i adael.”[26] Mae’r rhagolygon ar gyfer y sector amaethyddol traddodiadol, sydd ar hyn o bryd yn diffinio cyfran helaeth o’n heconomi sy’n seiliedig ar y tir, yn peri pryder hefyd. Collwyd bron i 8,000 o swyddi amaethyddol rhwng 2015 a 2021, gostyngiad o 13.6% mewn dim ond chwe blynedd.[28]

*[25] Mae tystiolaeth a gasglwyd gan rwydwaith Rewilding Britain yn awgrymu bod prosiectau ailwylltio, ar ôl iddynt ymsefydlu, yn llawer mwy cost-effeithiol i’w rhedeg na phrosiectau cadwraeth traddodiadol. Er enghraifft, cyfrifodd prosiect Carifran yn yr Alban eu bod wedi gwario cyfanswm o £10,000 yr erw i adfer y tir, o’r dechrau un a thros 25 mlynedd. Gwnaed traean o’r gwaith gan wirfoddolwyr. Mae hyn yn gyfystyr â £400/Ha y flwyddyn.*


*[26] Gweler yr enghreifftiau yn ein hastudiaeth achos ar ‘Brosiect y Grange’. Y tu allan i Gymru, mae prosiectau gwylltio arloesol fel Moor Barton yn Dartmoor ar flaen y gad o ran y dull hwn.*

*[27] Michael Woods, ‘Ieuenctid Cefn Gwlad yn Allfudo a Newid i’r Boblogaeth yng Nghymru’, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2023), a Woods ac Utz, ‘Young People in Rural Wales: Survey Report’, Prifysgol Aberystwyth (2021)*

*[28] Dyfynnwyd yn Woods ac Utz, ‘Young People in Rural Wales’ (2021)*

# 40%

## o bobl ifanc yn disgwyl gadael Cymru.



Mae cyflogau isel, unigedd cymdeithasol, a rhwystrau sylweddol i ddechreuwyr newydd yn ei gwneud yn annhebygol iawn y caiff hyn ei wrthdroi yn fuan. Canolrif oedran y 'penderfynwr allweddol' ar gyfer ffermio yng Nghymru yw 61; a dim ond 3% sydd o dan 35 oed.[28] Mae'r rhagolygon yn awgrymu mai tynged cefn gwlad Cymru, fel ein hecosystemau, ydy parhau yn y categori 'anffafriol, yn dirywio'.

Nid yw'n fater o fod pobl ifanc ddim eisiau dal ati i ffermio. Mynegodd 10% o'r rhai a holwyd ddiddordeb yn yr union beth hwnnw – ffigur uwch na'r gweithlu amaethyddol yng Nghymru ar hyn o bryd (7.4%). Ond hoffai llawer gyfleoedd eraill hefyd. Roedd 18% yn chwilio am yrfaoedd ym maes cadwraeth a rheolaeth amgylcheddol. Ac roedd dros draean yn dymuno gweithio yn y diwydiannau creadigol.[29] Gall ailwylltio gefnogi swyddi yn y meysydd hyn, ac mae'n gorgyffwrdd â sgiliau o feysydd amaethyddiaeth a choedwigaeth. Canfu dadansoddiad gan Rewilding Britain o brosiectau ailwylltio gynnydd o 120% ar gyfartaledd mewn cyflogaeth ar draws Cymru a Lloegr, o'i gymharu â'r defnydd blaenorol o'r tir dros gyfnod o 10 mlynedd (yn yr Alban roedd y cynnydd yn 10%).[30]

Ynghyd â hyn gwelwyd cynnydd aruthrol mewn cyfleoedd gwirfoddol, sy'n arbennig o arwyddocaol i boblogaethau hŷn yng nghefn gwlad. Fel ysgrifennodd Dr Neil Hudson, AS ar gyfer Penrith a'r Ffin: "Er mwyn i ardaloedd gwledig ffynnu, mae angen i ni eu hailwylltio." [31]

Mae yna gryn awydd am swyddi gwyrdd, gyda'r genhedlaeth bresennol yn rhoi bri ar yrfaoedd sy'n cyfrannu at ddyfodol gwyrddach (mae 52% o bobl 16-18 oed yn ystyried bod swyddi o'r fath yn rhai 'o werth uwch'). [32]



Roedd bron i hanner y bobl ifanc hyn yn ystyried hepgor addysg uwch yn gyfan gwbl a mynd i mewn i'r farchnad swyddi gwyrdd yn uniongyrchol. Gallai ehangu sefydliadau angori yng nghefn gwlad, fel Coleg y Mynydd Du a sefydlwyd yn ddiweddar, â'i ethos a'i raglen yn apelio at bobl ifanc a'r rhai sy'n angerddol dros yr amgylchedd, fod yn llwybr i sianelu'r angerdd hwnnw drwy hyfforddiant, ardystiadau a chyfleoedd uniongyrchol am gyflogaeth ar draws Cymru wledig, heb orfod gadael cefn gwlad i gyflawni hynny.[33]

[29] *Katie Devenish, 'Y Sector Ffermio yng Nghymru: Papur Briffio', Ymchwil y Senedd (2022) | Alex Phillips, 'Improving the Sustainable Farming Scheme for people, nature, and climate', Y Sefydliad Materion Cymreig (2024)*

[30] *Undeb Amaethwyr Cymru, 'A Mandate for Future Farmers' (2025)*

[31] *'Ystadegau o: Woods ac Utz, 'Young People in Rural Wales' (2021)*

[32] *412% increase in jobs at Scotland rewilding sites, research shows', Rewilding Britain (2024)*

[33] *Neil Hudson AS, 'To level up rural areas, we must rewild them', Conservative Home (2021)*

[34] *ISEP, 'Almost half of UK school leavers want a green job now' (2025)*

## “I godi safonau mewn ardaloedd gwledig, mae angen eu gwylltio.”

Does yna ddim yn anochel am ddirywiad cefn gwlad. Mewn ymchwil fanwl gan Brifysgol Aberystwyth, canfuwyd bod 75% o bobl ifanc yn mwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru, ac y byddai cymaint â 57% o’r rhai sydd eisoes wedi gadael yn ystyried dychwelyd pe bai digon o gyfleoedd i’w cael o ran cyflogaeth, cartrefi a bywyd cymdeithasol.[34]

Mae’r awydd i ddychwelyd yn gryfach byth i’r rhai sy’n siarad Cymraeg.

Mae’r awydd i ddychwelyd yn gryfach byth i’r rhai sy’n siarad Cymraeg. Mae mynediad at natur brydferth hefyd yn un o’r prif ffactorau a nododd pobl ifanc wrth benderfynu dychwelyd neu aros. Mae’r atebion yn glir. Mae’r awydd yno. Yr un yw’r ateb i’n problemau cymdeithasol ac ecolegol: mae angen rhagor o amrywiaeth mewn bywyd gwledig, yn union fel y mae angen rhagor o amrywiaeth mewn cynefinoedd. Rhoddodd gwiwerod Clidro rybudd clir i ni mai buan y bydd undonedd ecolegol yn arwain at undonedd cymdeithasol. Gyda’r ewyllys iawn, gallwn newid cyfeiriad.

# I wrthdroi ein hagwedd besimistaidd at gefn gwlad, gallai Cymru ddatgan ei hun yn Genedl Ieuenctid Cefn Gwlad gyntaf Ewrop.



I wrthdroi ein hagwedd besimistaidd at gefn gwlad, gallai Cymru ddatgan ei hun yn Genedl Ieuenctid Cefn Gwlad gyntaf Ewrop: gan amlinellu pecyn polisi o atyniadau a gwobrwyon sy'n adeiladu ar ein hesiampl arloesol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a mentrau fel y cynllun Datblygiadau Un Blaned (DUB). Mae DUB yn stori o lwyddiant unigryw i Gymru: mae wedi darparu cyfleoedd ar gyfer tai cymharol fforddiadwy ag effaith isel ar yr un pryd â sicrhau buddion ecolegol sylweddol, yn aml ar dir wedi dirywio. Ond mae prosesau cynllunio cymhleth a meini prawf cymhwyso llym, yn ogystal â'r gofyniad, yn ymarferol, am gyfalaf ymlaen llaw, wedi cyfyngu ar y gallu i'w ehangu ar raddfa fawr (dim ond 38 o brosiectau a gymeradwywyd rhwng lansio'r cynllun yn 2010 a'i werthuso yn 2021). Gellid addasu'r diffiniad o 'fenter seiliedig ar y tir' i gydnabod mathau eraill o gyflogaeth sy'n werthfawr i gymdeithas ac i'r amgylchedd, a gallai'r gofynion ar gyfer cynhyrchu bwyd ar safleoedd (gofynion nad ydynt bob amser yn addas i'r amodau, nac ychwaith yn gwneud y defnydd mwyaf buddiol o'r tir o ran natur a charbon) gael eu haddasu ar gyfer nodau eraill – e.e. rhoi hwb i fioamrywiaeth drwy ailwylltio.[35]





Gallai gwaith adfer amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar le gael ei esemptio'n benodol ar gyfer anheddau mentrau gwledig. Gallai rhwydwaith o brosiectau tai cydweithredol wedi'i gefnogi gan y wladwriaeth helpu ymhellach i fynd i'r afael â'r prinder tai yng nghefn gwlad, gan ddarparu cartrefi rhent rhad i bobl ifanc sy'n aros, yn cyrraedd, neu'n dychwelyd; gyda'r fantais ychwanegol o fynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol. Gellid symleiddio mecanweithiau i gwmnïau cydweithredol o'r fath eu cychwyn eu hunain. Gallai cymorth treth, hepgor ffioedd, a grantiau cynhaliaeth ar gyfer mynychu cyrsiau coleg yng nghefn gwlad sy'n addysgu sgiliau craidd fod yn atyniad ychwanegol ar yr un pryd â meithrin gweithlu'r dyfodol ar gyfer economi gadwraeth newydd.

*[35] Am ragor o wybodaeth am Goleg y Mynydd Du, gweler: blackmountainscollege.uk | Ymysg y cyrsiau Addysg Bellach yn y Coleg mae diplomâu mewn Adfer Byd Natur, Ffermio Adfywiol ac Agroecoleg, Coedwigaeth, Prysgoedio, a Garddwriaeth Adfywiol. Mae Addysg Bellach yn rhad ac am ddim i raddau helaeth yng Nghymru. Yn ddiweddar mae'r Coleg hefyd wedi cynnig gradd israddedig mewn 'Dyfodol Cynaliadwy: Celfyddydau, Ecoleg a Newid Systemau'.*

# Pa Ffordd i Gymru?



**Nid oes amheuaeth bod tirwedd Cymru ar fin newid – boed hynny o'n gwirfodd neu o'n hanfodd. Mae economeg, demograffeg a newid hinsawdd yn gwneud yr angen i addasu yn anochel.**



Y cwestiwn yw, pa fath o drawsnewidiad ydyn ni am ei weld: gwyddom o'n hanes, os na wnaiff pobl Cymru ddiffinio'n dyfodol drosom ni ein hunain, gallai eraill ei ddiffinio ar ein rhan. Mae gormod o newidiadau anghyfiawn wedi britho ein hanes. Does yna ddim awydd am un arall.

Ond does dim angen i newid o'r fath gael ei ddiffinio gan ofn. Yn lle'r rhagolygon ecolegol cyfarwydd llwm, yn lle'r besimistiaeth am ddirywiad cefn gwlad, gallwn greu stori newydd a dewis dyfodol arall. Gall ofn droi'n gyfle, pryder yn nerth. Gall y dyfodol hwn fod yn fwy gwyllt ac yn fwy cyfoethog. Yn fwy gwydn ac yn fwy poblog. Yn nes at hanes a threftadaeth Cymru ar hyd yr oesoedd.

Mae'n edrych yn ôl ar dirwedd a fyddai wedi bod yn gyfarwydd i ni cyn oes diwydiannu a 'gwelliannau' i'r tir: ffriddoedd, rhosydd, perllannau ac, ie, tirweddau gwyllt. I gyrraedd yno, rhaid troedio drwy dirwedd arall, un hŷn byth: tirwedd dychymyg a phosibiliadau, llawnder a chyffro.

Un sy'n ein gwahodd i gynhyrfu'r dyfroedd er mwyn gweld y byd o'r newydd. Yr arallfyd hwnnw a fu gerllaw ers tro byd – Annwn.

Mae straeon wedi bod yn rhan o fagwraeth llawer ohonom – chwedlau Cymru, straeon gan ein rhieni, ein neiniau a'n teidiau. Maen nhw'n sôn am lawnder na welsom erioed yn ein hoes ein hunain.

## Coedwigoedd glaw yn swatio yng ngheunentydd afon Prysor. Ucheldiroedd gwych y Rhinogydd, yn llewyrch i gyd yn eu llus. Rhostiroedd gloyw, wedi'u hadfer gan gymunedau, yn atseinio o rincian y troellwr mawr yn nüwch y nos.



Erbyn hyn, ein tro ni yw hi i bledio ein hachos. Ystyriwn y colledion a welsom eisoes; a blagur tlws adferiad a welsom yn egino. Pa straeon a adroddwn i'n plant, yn y wlad hon ble mae Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael sêl bendith y wladwriaeth, yn sacrosanct? Ein dewis ni yw hwnnw.

Mae hen feysydd tanio, wedi eu hailwyllltio'n anfwriadol am eu bod yn frith o hen ffrwydron, yn cynnig cipolwg anesmwyth ar yr hyn allai fod, gyda'u fflachiadau o flodau lliwgar a'u coed ifanc ir yn dystiolaeth rymus o dirwedd arall bosib. Yn y safleoedd ailwyllltio cyntaf yng Nghymru, mae rhywogaethau coll eisoes yn dychwelyd.

Mae hyn yn achos llawenydd: tystiolaeth y daw llawnder yn ddigon buan pan gaiff bywyd ond y cyfle lleiaf. Yr oll sydd ei angen gennym ni yw ymroddiad: i ddod â phopeth rydyn ni wedi'i wthio i'r ymylon, i'r dibyn, ac weithiau i ddifodiant, yn ôl i ganol pethau. I fyw yn ein plith ac wrth ein hymyl, ble buon nhw erioed.



# Pum Egwyddor



## Ar ran natur, ar ran pobl:

Rhaid i adferiad byd natur fod o fudd i Gymru, ei chymunedau, a'i dyfodol.



## Ar ran Cymru, yng Nghymru:

Rydym yn eirioli ar ran Cymru, yng Nghymru, ar ran pobl a byd natur.




## Mae natur i bawb:

Rydym yn cefnogi gwella mynediad at y tir a'r dŵr a democrateiddio sut cânt eu rheoli a'u gwarchod.

## Mae natur yn werthfawr yn ei rhinwedd ei hun:

Mae yna hawl foesol i warchod ac ailgyflwyno rhywogaethau brodorol, gan helpu pobl i gydfodoli â nhw unwaith eto.






## Edrych i'r dyfodol:

Mae'r gorffennol yn ganllaw, ond mae sawl dyfodol yn bosibl: nid ydym yn ceisio dychwelyd i unrhyw un adeg.

# Pum Man Cychwyn Ar Gyfer Newid




## Talu am bori naturiol ac adfer ecosystemau

Ymgorffori ailwylltio a dulliau sy’n cael eu harwain gan brosesau naturiol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gwobrwyo rheolwyr tir sy’n adfer ecosystemau ac nid dim ond cynefinoedd tameidiog, gan wneud cyfraniad ystyrlon at y targed o 30% o’r tir ar gyfer byd natur.

## Arwain trwy esiampl

Grymuso Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli’r ystâd gyhoeddus mewn ffyrdd sy’n arddangos adferiad byd natur ar raddfa fawr, gan ddechrau gyda gwarchodfeydd yr ucheldir a choedwigoedd aneconomaidd, a chan ddilyn dull Coedwigoedd Gwylltach.






## Dod â rhywogaethau coll yn ôl

Llunio a gweithredu strategaeth genedlaethol ar gyfer ailgyflwyno rhywogaethau allweddol ar gyfer y tir a'r môr, gan gychwyn gydag afancod ac wystrys, er mwyn sicrhau eu bod yn dychwelyd i ddalgylchoedd y prif afonydd a dyfroedd mewndirol Cymru yn y 5 mlynedd nesaf.




## Grymuso cymunedau

Creu 'Hawl y Gymuned i Brynu' ar gyfer tir, fel rhan o ymrwymiad i Ddeddf Diwygio Tir i Gymru, a Thrwydded Creu Natur ar gyfer y môr, gan roi'r pŵer i bobl leol adfer ecosystemau a chreu swyddi gwyrdd.




## Arafu'r llif

Cynllun gweithredu seiliedig ar natur ar gyfer pob rhanbarth sy'n dioddef llifogydd yng Nghymru, gan gefnogi gwaith rheoli llifogydd a chynefinoedd ar draws y dalgylch.

# Ymunwch â Chymru Wylltiach

## Cymru fwy gwyllt lle mae cysylltiad â'r tir yn cryfhau natur, cymunedau a mynediad y dyfodol.



I gael y newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau ac ati, cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr:

**rewildingalliance.cymru | cynghrairailwylltio.cymru**

Arhoswch mewn cysylltiad a chefnogwch ein gwaith drwy ddilyn ein sianeli cymdeithasol:

**Welsh Rewilding Alliance** **@rewildincym**

# Diolch

Cynghrair
Ailwylltio Cymru
Welsh Rewilding
Alliance